

Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

Adroddiad Monitro Brexit

19 Tachwedd 2018



Y Cynulliad

BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: GarethDavid.Thomas@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd Ymchwil

Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:

Adroddiad Monitro Brexit

19 Tachwedd 2018

Awduron:
Gethin Davies, Peter Hill, Gareth Thomas



Y Cynulliad

BREXIT

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Crynodeb o'r datblygiadau	1
2. Y datblygiadau diweddaraf.....	3
Negodiadau ar y Cytundeb Ymadael.....	3
Y berthynas yn y dyfodol	5
Deddfwriaeth.....	5
3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol	8
Parodrwydd.....	8
Yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE.....	9
Trefniadau masnach y dyfodol.....	10
Fframweithiau Cyffredin.....	11
4. Ymateb Llywodraeth Cymru	12

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 11 Hydref 2018.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad o'r prif faterion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

Crynodeb o'r datblygiadau

- Y prif ddatblygiad yw cytuno rhwng y DU a'r UE ar **y Cytundeb Ymadael drafft**, â Chabinet Llywodraeth y DU yn cymeradwyo'r cytundeb ar y cyd ar 14 Tachwedd. Cadarnhaodd Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, y bydd **uwchgynhadledd y Cyngor** yn cael ei chynnal am 9.30 ar fore 25 Tachwedd i roi sêl bendith i'r fargen, gan gymryd na fydd datblygiadau annisgwyl yn y cyfamser.
- Bydd datganiad gwleidyddol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn cael ei gytuno erbyn 20 Tachwedd, a bydd gan aelod-wladwriaethau'r UE 48 awr i werthuso'r datganiad. Cyhoeddwyd **amlinelliad o ddatganiad gwleidyddol ar y berthynas yn y dyfodol** ar 14 Tachwedd.
- Gwnaeth y Prif Weinidog y DU, Theresa May, **ddatganiad i'r wasg** ar 14 Tachwedd, lle dywedodd mai'r fargen gerbron yw'r un orau y gellir ei negodi, ac mae'n cyflawni ar bleidlais y refferendwm. Aeth rhagddi i ddweud bod y cytundeb yn golygu y byddai'r DU yn hunan-reoli ei harian, ei chyfreithiau a'i ffiniau; diweddu rhyddid i symud; a diogelu swyddi, diogelwch a'r undeb.
- Yna, gwnaeth Theresa May ddatganiad i Dŷ'r Cyffredin ar y cytundeb ar 15 Tachwedd.
- Ochr yn ochr â'r cytundeb, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddogfen yn egluro'r cytundeb**, ynghyd â **nodyn esboniadol technegol** yn egluro sut y byddai erthyglau 6 i 8 o brotocol Gogledd Iwerddon yn gweithio pe byddai'n dod yn weithredol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cyhoeddi **dogfen cwestiwn ac ateb** ar gynnwys y cytundeb ymadael, a **thaflen ffeithiau** ar y protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad** (cyn i'r fargen a'r dogfennau cysylltiedig gael eu cyhoeddi) ar 14 Tachwedd yn nodi bod angen i'r fargen sicrhau bod modd cael perthynas â'r UE yn y dyfodol sy'n caniatáu mynediad llawn a dirwysr i'r farchnad sengl a chyfranogiad yn yr undeb tollau. Roedd y datganiad yn nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru astudio manylion y cytundeb, a bod angen amser ar bob rhan o'r DU i graffu ar y cynigion a wneir.
- Ar 13 Tachwedd, cyhoeddodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin fersiwn wedi'i diweddarau o **Brexit: devolved legislature business**.

2. Y datblygiadau diweddaraf

Negodiadau ar y Cytundeb Ymadael

Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn y negodiadau ers 11 Hydref yw cytuno rhwng y DU a'r UE ar **y Cytundeb Ymadael drafft**, â Chabinet Llywodraeth y DU yn cymeradwyo'r cytundeb ar y cyd ar 14 Tachwedd. Cadarnhaodd Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, y bydd **uwchgynhadledd y Cyngor** yn cael ei chynnal am 9.30 ar fore 25 Tachwedd i roi sêl bendith i'r fargen, gan gymryd na fydd datblygiadau annisgwyl yn y cyfamser. Mae'r testun isod yn nodi'r llinell amser a arweiniodd at hyn, gan dynnu sylw at ddigwyddiadau allweddol dros y cyfnod hwn.

Cynhaliodd y Cyngor Ewropeaidd uwchgynhadledd ar 17 ac 18 Hydref, lle cyfarfu penaethiaid holl **aelod-wladwriaethau'r UE i drafod Brexit**, ymhlith materion eraill.

Ar 18 Hydref, **cafwyd datganiad gan Lywydd y Cyngor Ewropeaidd**, Donald Tusk, yn nodi nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i gwblhau cytundeb, ac meddai y byddai'n barod i gynnull cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd i drafod Brexit pan fyddai negodwr yr UE yn datgan bod digon o gynnydd wedi'i wneud.

Ar 22 Hydref, dywedodd Prif Weinidog y DU, Theresa May, fod 95 y cant o'r Cytundeb Ymadael bellach wedi'i gwblhau – cynnydd o'r 80 y cant y cyfeiriwyd ato dros yr haf – a rhoddodd **ddiweddariad** ar y 5 y cant sy'n weddill i'w gwblhau. Cadarnhaodd mai'r trefniadau o ran y ffin yn Iwerddon yw'r 5 y cant hwnnw. Dywedodd:

[We must make the commitment to] create an option to extend the implementation period as an alternative to the backstop. I have not committed to extending the implementation period. I do not want to extend the implementation period, and I do not believe that extending it will be necessary.

What I am saying is that if, at the end of 2020, our future relationship is not quite ready, the proposal is that the UK would be able to make a sovereign choice between the UK-wide customs backstop or a short extension of the implementation period.

Cyfeiriodd Donald Tusk yntau at y posibilrwydd hwn:

[...] if the UK decided that an extension of the transition period would be helpful to reach a deal, I am sure that the leaders would be ready to consider it positively.

Ar 22 Hydref, cyhoeddodd Grŵp Cynghori ar Ewrop Llywodraeth Cymru gofnodion ar gyfer ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi. Mae'r cofnodion hyn yn nodi y byddai estyniad byr i'r cyfnod gweithredu yn cyd-fynd â galwad y Grŵp ar y DU i 'ofyn i'r UE gynnig mwy o hyblygrwydd o ran amseru i sicrhau cytundeb manteisiol i'r ddwy ochr rhwng y DU a'r UE'. Ategwyd hyn gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, **mewn datganiad yr un diwrnod**.

Fodd bynnag, **mewn llythyr ar 24 Hydref**, dywedodd Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd:

[I am] happy to give evidence to the [House of Commons, Exiting the EU] Committee when a deal [on the Withdrawal Agreement] is finalised, and currently expect 21 November to be suitable.

Mewn araith ar 12 Tachwedd, rhoddodd Theresa May ddiweddariad ar y negodiadau Brexit, **gan ddweud**:

This will not be an agreement at any cost.

Any deal must ensure we take back control of our laws, borders and money. It must secure the ability to strike new trade deals around the world.

Yn dilyn **cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf** i Cabinet Llywodraeth y DU ynghylch sefyllfa'r negodiadau ar fore 13 Tachwedd, dywedodd Downing Street fod nifer fach o faterion ar ôl i'w datrys.

Fodd bynnag, yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw cyhoeddwyd bod cytundeb wedi'i gyrraedd ar lefel dechnegol a byddai cyfarfod Cabinet ar 14 Tachwedd. Rhyngddynt, cytunodd aelodau Cabinet Llywodraeth y DU i gymeradwyo'r cytundeb ar 14 Tachwedd. Fe wnaeth Prif Weinidog y DU, Theresa May, **ddatganiad i'r wasg ar 14 Tachwedd**, gan nodi:

I firmly believe that the draft Withdrawal Agreement was the best that could be negotiated...

When you strip away the detail, the choice before us is clear. This deal which delivers on the vote of the referendum, which brings back control of our money, laws and borders; ends free movement; protects jobs, security and our union; or leave with no deal; or no Brexit at all.

I know that there will be difficult days ahead. This is a decision which will come under intense scrutiny and that is entirely as it should be and entirely understandable.

But the choice was this deal, which enables us to take back control and to build a brighter future for our country, or going back to square one with more division, more uncertainty and a failure to deliver on the referendum.

Y berthynas yn y dyfodol

Ar 31 Hydref, cyhoeddodd Cyllid a Thollau EM fersiwn ddiweddaraf o ddogfennau, **partnership pack: preparing for changes at the UK border after a 'no deal' EU exit**. Mae'r pecyn wedi'i gynllunio i helpu busnesau o'r diwrnod cyntaf os byddwn yn gadael yr UE heb gytundeb.

Yng nghyfarfod Coleg Comisiynwyr yr UE ar 13 Tachwedd 2018, roedd yr **agenda** yn cynnwys datganiad ynghylch cynllun ymateb brys i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, ac eitem i benderfynu a fyddai dinasyddion y DU angen fisa i deithio i wledydd yr UE.

Y diwrnod hwnnw hefyd, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion ar gyfer senario Brexit heb gytundeb. Ymhlith y cynigion hyn oedd y câi trigolion y DU deithio i'r UE **heb fod angen fisa** (ar yr amod bod y DU hithau'n cynnig yr un fath i drigolion yr UE). Yn ogystal â dwysáu'r gwaith ar barodrwydd, amlinellodd y Comisiwn ei **gynllun wrth gefn** ar gyfer senario heb gytundeb.

Bydd y datganiad gwleidyddol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn cael ei gytuno erbyn 20 Tachwedd, a bydd gan aelod-wladwriaethau'r UE 48 awr i werthuso'r datganiad. Cyhoeddwyd **amlinelliad o ddatganiad gwleidyddol ar y berthynas yn y dyfodol** ar 14 Tachwedd.

Deddfwriaeth

Mae'r **Bil Amaethyddiaeth** wrthi'n cael ei drafod yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, a disgwylir i'r **Pwyllgor Biliau Cyhoeddus** gyflwynodd adroddiad erbyn 20 Tachwedd. Nod y Bil yw darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin a sefydlu systemau newydd ar gyfer cymorth amaethyddol a rheoli tir ar draws y DU. Mae Atodlen 3 o'r Bil yn gymwys i Gymru yn benodol a chynhwyswyd y pwerau hyn ar gais Llywodraeth Cymru. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit, gwneud newidiadau i'r cynlluniau presennol a gweithredu cynlluniau newydd. Bwriedir i'r pwerau hyn bara am gyfnod penodol nes i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil Amaethyddiaeth ei hun, a ddisgwylir cyn diwedd y Cynulliad hwn.

Cyflwynwyd y **Bil Pysgodfeydd** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Hydref. Nid yw'r dyddiad ar gyfer yr Ail Ddarlleniad yn hysbys eto. Prif nodau'r Bil yw rheoli mynediad at ddyfroedd y DU; sicrhau y gall y DU bennu ei chwota pysgota ei hun; gwarchod yr amgylchedd morol; a nodi sut y bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd o ran rheoli pysgodfeydd. Fel yn achos y Bil Amaethyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru.

Y **Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)** yw'r bil diweddaraf sy'n gysylltiedig â Brexit a gyflwynwyd yn Senedd y DU, ar ôl cael ei Darlleniad Cyntaf ar 26 Hydref. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ariannu a threfnu gofal iechyd y tu allan i'r DU a rhoi cytundebau gofal iechyd cyfatebol ar waith rhwng y DU a gwledydd eraill. Bydd angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar y Bil.

Yn y Cynulliad, pasiwyd y **Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)** ar 21 Mawrth a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin. Fodd bynnag, fel rhan o'r cytundeb rhynglywodraethol a wnaed â Llywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Byddai hyn yn cael ei wneud gan reoliad o dan adran 22 o'r Ddeddf. Gosodwyd y rheoliadau drafft gerbron y Cynulliad ar 8 Mehefin, a daeth y cyfnod o 60 diwrnod ar gyfer sylwadau i ben ar 1 Hydref. Cafwyd sylwadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Yn dilyn **datganiad** a wnaed ar 13 Tachwedd, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gofyn am benderfyniad gan y Cynulliad i gymeradwyo'r rheoliadau a diddymu'r Ddeddf.

O ran **is-ddeddfwriaeth**, mae Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi dweud eu bod yn disgwyl gosod tua 800 o Offerynnau Statudol i baratoi'r llyfr statud ar gyfer y diwrnod gadael. Hyd yn hyn, mae 129 o Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit wedi'u gosod ers i Ddeddf yr UE (Ymadael) gael Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin 2018, ac mae 16 Offeryn Statudol wedi cwblhau eu hynt drwy'r Senedd.

Yn y Cynulliad, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fydd yn gyfrifol am sifftio rheoliadau a chraffu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar **protocol** â Llywodraeth Cymru ar gyfer craffu ar y rheoliadau hyn. Mae'r protocol yn cynnwys ymrwymiad i weithredu system rhybuddio cynnar ar gyfer Offerynnau Statudol sydd am gael eu cyflwyno, a llif gwastad a chyson o reoliadau.

Yn dilyn newidiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad ym mis Hydref, mae Rheol Sefydlog 30C yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, pan fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf yr UE (Ymadael), osod **datganiad ysgrifenedig** yn hysbysu'r Cynulliad o'r rheoliadau dan sylw. Pan fo'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd osod **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol** o dan Reol Sefydlog 30A. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod dau Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac 13 datganiad ysgrifenedig sy'n ymwneud â rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig.

3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

Parodrwydd

Mae nifer o Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi wedi clywed tystiolaeth gan Ysgrifenyddion Gwladol ac Ysgrifenyddion Parhaol ar barodrwydd y DU o ran gwahanol agweddau ar Brexit. Ar **23 Hydref**, holwyd Matt Hancock AS, Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin ynghylch effaith debygol Brexit heb fargen ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y sesiwn, trafodwyd y risgiau allweddol i gleifion, gwasanaethau a chwmnïau ym maes iechyd a gofal, yn ogystal ag effeithiolrwydd y gwaith cynllunio a wnaed gan Lywodraeth y DU a rhanddeiliaid ar gyfer senario dim bargaen.

Ar 23 Hydref, ysgrifennodd Is-Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Ynni ac Amgylchedd yr UE **at Michael Gove AS**, sef yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i dynnu ei sylw at bum pryder difrifol gan y Pwyllgor ynghylch paratodau ei adran ar gyfer senario Brexit heb fargen. Yn dilyn hynny, cynhaliodd yr Is-bwyllgor sesiwn graffu ar 23 Hydref gyda Claire Perry AS, y Gweinidog Gwladol dros Ynni a Thwf Glân, i drafod y paratodau ar gyfer senario 'dim bargaen' o safbwynt ynni a'r amgylchedd, ac yn dilyn y sesiwn **ysgrifennodd at y Gweinidog** i godi cwestiynau nas gofynnwyd yn ystod ei sesiwn.

Ar 7 Tachwedd, cyhoeddodd Is-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Ynni ac Amgylchedd yr UE **ei adroddiad ar reoliadau cemegol ar ôl Brexit**. Dangosodd yr adroddiad nad yw paratodau Llywodraeth y DU ar gyfer rheoleiddio cemegau ar ôl Brexit yn cael eu gwneud yn ddigon cyflym, gan achosi risg i iechyd pobl â chyflwr yr amgylchedd ac esgor ar ganlyniadau difrifol posibl i'r sector cemegau.

Ar 12 Tachwedd, cynhaliodd Is-Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Farchnad Fewnol yr UE **sesiwn â Chris Grayling AS**, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, i drafod ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth forol a gwaith cynllunio wrth gefn y sector ar gyfer senario 'dim bargaen'.

Ar 13 a 14 Tachwedd, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin sesiynau craffu â'r Gweinidog dros yr Heddlu ac **uwch swyddogion o fewn yr adran a'i hasiantaethau**. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd y paratodau y mae'r Swyddfa Gartref yn eu gwneud i sicrhau bod gallu'r heddlu a gwasanaethau diogelwch yn y DU yn cael eu cynnal pe byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb fargen ym mis Mawrth 2019; a gweithgarwch ar ffiniau'r DU a pharodrwydd ar gyfer Brexit, gan ganolbwyntio ar systemau staffio a TG.

Ar 14 Tachwedd, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad, **DEFRA's progress of Brexit**. Roedd yr adroddiad yn dangos:

There is a high level of risk in the Department's portfolio, with many of its plans dependent on co-operation from other departments, the devolved administrations and agencies and the goodwill of EU member states. The Department is too complacent about the levels of disruption or interruption to trade that may be faced. Fundamental issues for food, chemical and animal importers and exporters are yet to be resolved.

Yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE

Ar 14 Tachwedd, **cynhaliodd y Cynulliad ddadl** ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y **paratodau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**. Mae Cymru ar hyn o bryd yn cael **tua £680 miliwn** bob blwyddyn o ffrydiau ariannu'r UE, gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol, y Polisi Amaethyddol Cyffredin, a Horizon 2020. Gwnaeth y Pwyllgor 11 o argymhellion yn ei adroddiad, a **derbyniwyd pob un ohonynt** gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prif argymhellion yn cynnwys na ddylai Cymru fod 'geiniog yn dlotach' o ran cyllid o ganlyniad i Brexit, ac y dylid datganoli Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU a threfniadau cymorth amaethyddol i roi'r hyblygrwydd mwyaf posibl wrth i Lywodraeth Cymru lunio polisi.

Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, bu **nifer o ddatblygiadau** o ran datblygu rhanbarthol a chymorth amaethyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £350,000 o Gronfa Bontio'r UE i feithrin partneriaeth gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i lywio ei ddull buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol a gweithredu ei gynllun gweithredu economaidd. Cynhaliodd Swyddfa Cymru ddigwyddiad rhanddeiliaid yng Nghaerdydd ar Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU ar 8 a 9 Tachwedd. Dywedodd Prif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn nad yw'n glir sut y bydd y gronfa'n gweithredu, faint o arian fydd ar gael, na sut y bydd yn gweithio o safbwynt y setliad datganoli. Aeth ymlaen i ddweud bod Swyddfa Cymru yn ymddangos fod wedi torri ar draws cyfrifoldebau datganoledig er nad oes ganddi unrhyw bwerau ei hun yn y maes hwn.

Ar 14 Tachwedd, cafwyd dadl yn Neuadd San Steffan ar **Gymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU**. Yn ystod y ddadl, cadarnhaodd Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Nigel Adams AS, y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar y gronfa erbyn diwedd 2018, ac meddai fod Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i drafod â'r gweinyddiaethau datganoledig wrth ddatblygu ei chynigion.

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove AS, **adolygiad annibynnol** o lefelau ariannu amaethyddol ar ôl Brexit ar draws y DU rhwng 2020 a 2022, ac ymrwymodd i beidio â defnyddio fformiwla Barnett yn unig i benderfynu ar y dyraniadau i wledydd y DU.

Ar 24 Hydref, fe wnaeth Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit (a sefydlwyd gan Ganolfan Llywodraethu Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) **fynegi ei bryderon** i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Ymhlith y pryderon oedd na fydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn rhoi'r un faint o gyllid i Gymru ag y mae'n ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol, y bydd y Gronfa'n peidio â blaenoriaethu'r mater o fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol, ac na fydd yn cael ei siapio gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru.

Trefniadau masnach y dyfodol

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi dechrau ar ei ymchwiliad i **Brexit, masnach a thollau**, gan ganolbwyntio ar yr hyn y byddai gwahanol opsiynau ar gyfer trefniadau masnach a thollau rhwng y DU a'r UE yn ei olygu i Gymru, a pha gyfleoedd sydd i Gymru wrth greu cytundebau masnach newydd â gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth **dystiolaeth ysgrifenedig** i'r ymchwiliad, a gyhoeddwyd ar 30 Hydref. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 12 Tachwedd, dywedodd Llywydd Cymdeithas Cludo Nwyddau Iwerddon wrth y Pwyllgor eu bod yn edrych ar lwybrau eraill ar gyfer llongau megis rhwng Rosslare a Cherbourg. Wrth drafod parodrwydd porthladdoedd Cymru ar gyfer senario 'dim bargaen', dywedodd Cyfarwyddwr Polisi Cymdeithas Cludo Nwyddau ar Loriau y DU nad oedd yn credu bod y porthladdoedd yn barod o gwbl.

Ar 31 Hydref, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban **ei adroddiad** ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Masnach gan Lywodraeth y DU. Nid oedd yr adroddiad yn argymhell bod Senedd yr Alban yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil oni bai y dilëir y cymalau sy'n cyfyngu ar bwerau Gweinidogion yr Alban mewn meysydd datganoledig. Roedd yr adroddiad hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i ddatrys y sefyllfa ar weithrediad Confensiwn Sewel a'i ystyr, a nododd ei siom nad yw'r Bil yn sôn am rôl y gweinyddiaethau datganoledig wrth negodi trefniadau masnach ar ôl Brexit.

Fframweithiau Cyffredin

Ar 13 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **yr adroddiad cyntaf** ar fframweithiau cyffredin a'r defnydd a wneir gan Lywodraeth y DU o bwerau o dan adran 12 o Ddeddf yr UE (Ymadael). Roedd yr adroddiad yn datgan nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw reoliadau eto o dan y Ddeddf i rewi pwerau'r Cynulliad dros dro. Mae'n mynd ymlaen i nodi:

On the basis of the significant joint progress on future frameworks, and the continued collaboration to ensure the statute book is ready for exit day, the UK Government has concluded that it does not need to bring forward any section 12 regulations at this juncture. On this basis, the Scottish and Welsh Governments continue to commit to not diverging in ways that would cut across future frameworks, where it has been agreed they are necessary or where discussions continue.

4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ymddangosodd **Robin Walker AS**, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd gerbron y Pwyllgor ar 11 Hydref. Dywedodd:

We want to ensure that we've taken on board the views of the devolved administrations, [...] but it's not a situation in which, politically, they can necessarily drive the UK position on these issues more broadly, and that's the nature of the discussions we sometimes have to have in these forums: to explain where we agree, where we disagree, where there is important information we can take on board, but also where we may not reach agreement.

Cynhaliwyd pumed gynhadledd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 25 Hydref. Yn dilyn y cyfarfod, cyhoeddwyd **datganiad ar y cyd** ynghylch y trefniadau rhynglywodraethol cyfredol gan gadarnhau unwaith yn rhagor mai barn unfrydol y pwyllgorau oedd nad yw Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yn addas at ei ddiben. Fodd bynnag, nid oedd Robin Walker AS yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i greu Cyngor Gweinidogion, ac **meddai** fod strwythurau gwaith ychwanegol wedi cael eu creu:

I think we've also recognised [...] that there needs to be additional machinery to support this process, and the ministerial forum on EU negotiations [...] has been set up with the specific aim of reporting back to JMC(EN) on upcoming negotiations on the future relationship.

Rhoddodd Prif Weinidog Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor **ar 5 Tachwedd**. Pan ofynnwyd pa mor aml y mae Llywodraeth Cymru yn cael diweddariad gan Lywodraeth y DU ar y trafodaethau Erthygl 50, dywedodd y Prif Weinidog mai o bryd i'w gilydd y ceir diweddariadau.

At the moment, we have no real understanding of what the final deal might look like. We've been proactive in putting forward our own policy positions. We've done that, of course, with the different White Papers that we have published. There is involvement in the negotiations in the sense that we have pressurised the UK Government to make sure that we are involved.

Fodd bynnag, dywedodd fod cyfraniad y sefydliadau datganoledig i'r negodiadau wedi gwella ers mis Mawrth 2017 ond bod lle iddynt gyfrannu mwy hefyd. Yn ôl y Prif Weinidog:

[...]one of the issues that needs to be resolved is that the UK Government sometimes takes the view that international relations are not devolved and that, therefore, we don't need to be consulted on issues that are international issues but which nevertheless have an effect on devolved areas—health being one, for example.

Aeth ymlaen i ddweud nad yw Llywodraeth Cymru yn cael gwybod ymlaen llaw beth yw safbwynt negodi Llywodraeth y DU a bod rhaid iddynt 'ddarllen yn y papurau newydd' yr hyn a allai ddeillio o'r negodiadau.

Wrth drafod cyfraniad y Cynulliad i unrhyw gytundeb Brexit, dywedodd y Prif Weinidog y byddai angen pleidlais ac y byddai angen trafodaeth bellach ynghylch sut beth fyddai'r cynnig. Dywedodd:

I always took the view that any agreement should be confirmed by the Parliaments, plural, of the UK and not just Westminster, because there are so many devolved areas that are affected. So, yes, there will have to be a debate.

Yn fwy diweddar, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething AC, a'i swyddog cyfatebol yn yr Alban, Jeane Freeman ASA, **lythyr ar y cyd at Weinidog Mewnfudo Llywodraeth y DU**, Caroline Nokes AS. Yn y llythyr, gwnaethant ofyn i Lywodraeth y DU ailystyried ei phenderfyniad i beidio â chynnwys aelodau teulu yng nghynllun preswyllo sefydlog yr UE, gan gynnig cynnal rhaglen beilot i'r perwyl hwnnw yng Nghymru a'r Alban. Dywedasant wrth Lywodraeth y DU, pe na byddai'n gwneud hynny, na fyddent yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud ymdrech ragweithiol i hybu'r cynllun i staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r Alban. Mae'r llythyr hefyd yn datgan:

[...] earlier ministerial engagement would have provided a more timely opportunity to discuss and agree matters such as including family members in the [EU settlement scheme] while still in its planning stages.

Ar 30 Hydref, cyhoeddodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, **ddatganiad ysgrifenedig** yn ymateb i Gyllideb y DU yn hydref 2018, gan sôn am y goblygiadau i Gymru:

Mae Brexit yn parhau i bwyso ar y rhagolygon twf ar gyfer Cymru a'r DU yn gyfan. Siaradodd y Canghellor ddoe am addewid o fwy o gyllid yn y dyfodol os sicreir cytundeb manteisiol yn dilyn y negodiadau Brexit. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y negodiadau rhwng y DU a'r UE ac mae'r bygythiad na cheir cytundeb yn ymddangos yn fwy tebygol. Byddai'r canlyniad hwn yn drychinebus ac yn amharu ac yn cael effaith negyddol anghymesur ar Gymru.

Wrth ymateb i gwestiwn nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Tachwedd, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ynghylch Brexit:

Ministers continue to strongly make the case for a Brexit that protects the interests of Wales at every opportunity. In recent weeks these have included bilateral ministerial phone calls, a ministerial forum, and the British-Irish Council. A Joint Ministerial Committee (European negotiations) will take place later today.

Cyfarfu Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau yr UE) ar 13 Tachwedd.

Cyhoeddwyd **datganiad** yn dilyn y cyfarfod. Dywedai fod y trafodaethau wedi cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y negodiadau, gan gynnwys datblygiadau pellach mewn perthynas â'r Cytundeb Ymadael â'r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Ar **13 Tachwedd** ymwelodd y Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans AC, â chyfarfod llawn Senedd Ewrop yn Strasbwrg fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Fforwm Gweinidogol y DU ar Negodiadau yr UE. Mae'r Fforwm yn cyfarfod fel is-grŵp o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau yr UE). Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod, a oedd yn nodi:

[The purpose of the visit was to] discuss with European Parliamentarians and others issues including the prospects for the successful conclusion to the negotiations between the UK and the EU27 on the Withdrawal Agreement and the associated Political Declaration; the process for securing the approval of the European Parliament for the Agreement; and the potential, in the event of a deal not being secured or being voted down in the House of Commons, of an extension of the Article 50 process and measures to mitigate the worst potential effects of 'no deal'.

Wrth ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd ynghylch y Cytundeb Ymadael drafft rhwng y DU a'r UE, **dywedodd** Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

Lywydd, nid yw Llywodraeth Cymru na Llywodraeth yr Alban wedi gweld manylion y testun ymlaen llaw hyd yn hyn. Roeddwn yn Llundain ddoe ar gyfer cyfarfod diweddaraf y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE a gallais drafod cynnwys y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol, ac yn wir, y ddogfen esboniadol a fydd yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â hynny, gyda Dirprwy Brif Weinidog y Deyrnas Unedig a chyda Gweinidogion yr Alban hefyd. Deallaf y bydd Prif Weinidog Cymru'n siarad gyda Phrif Weinidog y DU y prynhawn yma.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad** (cyn i'r cytundeb ymadael drafft a'r dogfennau cysylltiedig gael eu cyhoeddi) ar 14 Tachwedd yn datgan:

[...] mae'n hanfodol bod y cytundeb yn sicrhau bod modd sefydlu perthynas â 27 gwlad yr UE yn y dyfodol sy'n cynnwys mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl a chymryd rhan mewn undeb tollau.

Rhaid inni gael gweld manylion y cytundeb cyn gynted â phosibl. Bydd angen amser ar bob un o wledydd y Deyrnas Unedig i graffu ar yr hyn sy'n cael ei gynnig, gan y bydd yn cael effaith aruthrol ar ein dyfodol.

